*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 202X Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 202X

DRAFT

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu bod unigolion penodol sy'n rhoi triniaethau arbennig (fel y'u rhestrir yn adran 57 o'r Ddeddf) yng Nghymru i'w trwyddedu gan awdurdod lleol.

Mae adran 59 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i driniaeth arbennig, a roddir yng nghwrs busnes, gael ei rhoi o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig (oni bai bod yr unigolyn hwnnw wedi ei esemptio).

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau am drwyddedau triniaeth arbennig, gan gynnwys y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i gais am drwydded triniaeth arbennig gael ei ganiatáu. Mae Rhan 1 hefyd yn gwneud darpariaethau ynghylch ffurf a chynnwys ffurflen gais.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffurf a chynnwys trwydded triniaeth arbennig (fel y'i nodir yn Atodlen 2 ac Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau trwyddedu mandadol sy'n gymwys i drwydded triniaeth arbennig. Mae amryw o Atodlenni yn nodi'r amodau trwyddedu mandadol sy'n gymwys ac o dan ba amgylchiadau y maent yn gymwys.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau triniaeth arbennig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

DRAFFT

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 202X Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 202X

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 62(1), (4) a (5), 63(1) a (5) ac 76(4) a (5) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), a pharagraffau 4(4) a 5(3) o Atodlen 3 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan adran 64 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 202X.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XXX.

(**1**) 2017 dccc 2. *Gweler* adran 124(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "rheoliadau".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).



DRAFFT

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "amodau trwyddedu mandadol" ("*mandatory licensing conditions*") yr ystyr a roddir yn adran 63(1) o'r Ddeddf;

mae "amodau trwyddedu mandadol cymwys" ("*applicable mandatory licensing conditions*") i'w ddarllen yn unol ag adran 63(6) a (7) o'r Ddeddf;

mae i "arolygiad cydymffurfedd" ("*compliance inspection*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(5) ac mae i'w ddarllen yn unol â hynny oni bai bod y Rheoliadau hyn yn darparu nad oes angen un;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r awdurdod lleol, fel y'i diffinnir gan adran 124(1) o'r Ddeddf, sy'n dyfarnu ar gais a ddaw i law yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf ar gyfer rhoi trwydded triniaeth arbennig;

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am drwydded triniaeth arbennig;

ystyr "cais am dystysgrif gymeradwyo" ("*application for an approval certificate*") yw cais o dan adran 70(1) o'r Ddeddf ac mae'n cynnwys cais—

(a) am dystysgrif gymeradwyo,

(b) i amrywio tystysgrif gymeradwyo,

(c) i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo, a

(d) am gopi o dystysgrif gymeradwyo;

mae i "cerbyd" ("*vehicle*") yr ystyr a roddir yn adran 94(1) o'r Ddeddf;

mae i "cyfnod y drwydded" ("*licence period*") yr ystyr a roddir yn adran 59(8)(a) o'r Ddeddf;

mae i "deiliad trwydded" ("*licence holder*") yr ystyr a roddir yn adran 59(8)(b) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

ystyr "ffi am gais" ("*application fee*") yw'r ffi a ragnodir gan yr awdurdod lleol i fynd gyda chais;

ystyr "ffi gydymffurfio" ("*compliance fee*") yw'r ffi y caniateir ei chodi gan yr awdurdod lleol o dan adran 76(1) o'r Ddeddf;

ystyr "goruchwyliwr" ("*supervisor*") yw person sy'n ddeiliad trwydded ac sy'n gyfrifol am y canlynol—

(a) cadw golwg ar weithgareddau dysgu a gweithgareddau gwaith hyfforddai, ac arwain y gweithgareddau hynny,

(b) cynllunio a dyrannu gwaith hyfforddai,

(c) goruchwylio perfformiad hyfforddai wrth iddo roi triniaeth arbennig,

(d) monitro perfformiad hyfforddai, ac

DRAFT

(e) penderfynu a all hyfforddai roi triniaeth arbennig heb oruchwyliaeth;

ystyr "hyfforddai" ("*trainee*") yw unigolyn y mae ei drwydded triniaeth arbennig yn cynnwys amod na chaniateir iddo roi triniaeth arbennig ond o dan oruchwyliaeth goruchwyliwr;

mae i "mangre" ("*premises*") yr ystyr a roddir yn adran 94(1) o'r Ddeddf;

ystyr "sicrwydd yswiriant" ("*insurance cover*") yw polisi yswiriant dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio'r ceisydd mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwydd y gallai fynd iddo, mewn cysylltiad â salwch, haint, anaf a/neu effeithiau andwyol ar iechyd nad ydynt yn heintus megis adweithiau alergaidd, sy'n codi drwy roi triniaeth arbennig;

mae i "triniaeth arbennig" ("*special procedure*") yr ystyr a roddir yn adran 57 o'r Ddeddf;

ystyr "trosedd berthnasol" ("*relevant offence*") yw trosedd a restrir yn adran 66(8) o'r Ddeddf;

mae i "trwydded dros dro" ("*temporary licence*") yr ystyr a roddir yn adran 59(8)(c) o'r Ddeddf;

mae i "trwydded triniaeth arbennig" ("*special procedure licence*") yr un ystyr ag yn adran 59(1) o'r Ddeddf;

mae i "tystysgrif gymeradwyo" ("*approval certificate*") yr ystyr a roddir yn adran 70(1) o'r Ddeddf.

DRAFT

## RHAN 1

## Cais am drwydded triniaeth arbennig

**Cais am drwydded triniaeth arbennig**

**3.**—(1) Rhaid i gais am drwydded triniaeth arbennig fod ar y ffurf a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Bwriedir i'r testun sydd wedi ei gynnwys mewn bachau petryal yn y ffurflen yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn fod yn ganllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen.

(3) Caniateir gwneud cais naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig.

(4) Nid yw cais i'w drin fel pe bai wedi ei wneud hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am gais mewn arian cliriedig.

**Y meini prawf trwyddedu cymwys er mwyn i drwydded triniaeth arbennig gael ei rhoi**

**4.**—(1) Mae'r meini prawf trwyddedu y mae rhaid i'r ceisydd eu bodloni ar gyfer trwydded triniaeth

arbennig er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu wedi eu nodi ym mharagraffau (2) i (6).

(2) O ran y ceisydd—

(a) rhaid iddo fod yn 18 oed neu'n hŷn, a

(b) rhaid iddo gyflwyno cais yn unol â rheoliad 3.

(3) O ran y cais y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b), rhaid i'r canlynol ddod gydag ef—

(a) y ffi am gais (os oes un),

(b) tystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys a ddelir gan y ceisydd mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig,

(c) tystiolaeth o dystysgrif datgeliad sylfaenol, a

(d) tystiolaeth, a ddelir gan y ceisydd, fod Dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir wedi ei gwblhau yn llwyddiannus.

(4) Rhaid i'r ceisydd gwblhau a phasio arolygiad cydymffurfedd gan yr awdurdod lleol ynghylch y materion a bennir ym mharagraff (5).

(5) Rhaid i geisydd ddangos i'r awdurdod lleol ei wybodaeth am y materion a ganlyn—

(a) rheoli heintiau a chymorth cyntaf, yng nghyd-destun y driniaeth arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi,

(b) y dyletswyddau a osodir, o dan Ran 4 o'r Ddeddf neu yn rhinwedd y Rhan honno, ar ddeiliad trwydded,

(c) yr amodau trwyddedu mandadol, a

(d) goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu mandadol.

(6) Mae'r fangre neu'r cerbyd a nodwyd yn y cais wedi cael ei harchwilio neu ei archwilio yn unol â'r Rheoliadau at ddiben penderfynu ar gydymffurfedd â'r meini prawf trwyddedu.

(7) Mae'r meini prawf trwyddedu a nodir ym mharagraffau (2) i (6) yn ddarostyngedig i adran 65 (caniatâd neu wrthodiad mandadol i gais am drwydded triniaeth arbennig) ac adran 66 (disgresiwn i ganiatáu cais am drwydded triniaeth arbennig) o'r Ddeddf.

**Y meini prawf trwyddedu cymwys er mwyn i drwydded dros dro gael ei rhoi**

**5.** Pan fo ceisydd yn dymuno gwneud cais am drwydded dros dro, rhaid i'r ceisydd—

(a) cydymffurfio â'r meini prawf trwyddedu a nodir yn rheoliad 4 (ac eithrio paragraffau (4) a (5)), a

(b) gwneud cais o leiaf 28 o ddiwrnodau gwaith cyn y dyddiad dechrau arfaethedig ar gyfer y drwydded dros dro.

DRAFT

### Adnewyddu trwydded triniaeth arbennig

**6.** Ni chaiff awdurdod lleol adnewyddu trwydded triniaeth arbennig oni bai bod y fangre neu'r cerbyd a nodwyd yn y cais wedi cael ei harchwilio neu ei archwilio yn unol â'r rheoliadau at ddiben penderfynu ar gydymffurfedd â meini prawf trwyddedu.

### Dehongli

**7.** Yn y Rhan hon—

mae i "ceisydd" ("*applicant*") yr un ystyr ag yn adran 62(1) o'r Ddeddf;

ystyr "Dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir" ("*regulated Level 2 Award*") yw Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig, sef cymhwyster nad yw'n radd a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru(**1**);

ystyr "y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd" ("*Disclosure and Barring Service*") yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sefydlwyd gan adran 87(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(**2**);

mae i "meini prawf trwyddedu" ("*licensing criteria*") yr ystyr a roddir yn adran 62 o'r Ddeddf;

ystyr "rhif y drwydded" ("*licence number*") yw'r rhif a roddir gan yr awdurdod lleol i'r drwydded triniaeth arbennig sy'n unigryw i'r drwydded honno ac a bennir ynddi;

ystyr "rhif y dystysgrif gymeradwyo" ("*approval certificate number*") yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r dystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i'r dystysgrif honno ac a bennir ynddi.

## Rhan 2

## Ffurf a chynnwys trwydded triniaeth arbennig

### Ffurf a chynnwys trwydded triniaeth arbennig

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5), rhaid i drwydded triniaeth arbennig fod ar y ffurf a nodir fel a ganlyn—

(a) Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn (cerdyn llun) ("Rhan 1 o'r Drwydded Triniaeth Arbennig"), a

(b) Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn (papur A4) ("Rhan 2 o'r Drwydded Triniaeth Arbennig").

(2) Rhaid i Ran 1 o'r Drwydded Triniaeth Arbennig gael ei hargraffu—

---

(**1**) Fe'i sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5).

(**2**) 2012 p. 9.



DRAFT

(a) mewn lliw,

(b) yn ddwyieithog.

(3) Rhaid i Ran 2 o’r Drwydded Triniaeth Arbennig gael ei hargraffu—

(a) mewn lliw,

(b) yn ddwyieithog,

(c) ar un ddalen o bapur A4,

(d) â gogwydd ar i fyny.

(4) Bwriedir i’r testun sydd wedi ei gynnwys mewn bachau petryal yn Rhan 1 a Rhan 2 o’r Drwydded Triniaeth Arbennig fod yn ganllawiau.

(5) Rhaid atodi copi o’r amodau trwyddedu mandadol cymwys a bennir yn rheoliad 8 i Ran 2 o’r Drwydded Triniaeth Arbennig.

# Rhan 3

## Amodau trwyddedu mandadol

**Amodau trwyddedu mandadol**

**9.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau trwyddedu mandadol cymwys.

(2) Mae trwydded triniaeth arbennig yn ddarostyngedig i’r amodau trwyddedu mandadol a nodir yn Atodlen 4 i’r Rheoliadau hyn.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) i (6), mae trwydded triniaeth arbennig ar gyfer triniaeth arbennig a nodir yn yr ail golofn yn y Tabl ym mharagraff (7) yn ddarostyngedig i’r amodau trwyddedu mandadol a nodir yn yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn y mae ei rhif wedi ei nodi yn y golofn gyntaf gyfatebol yn y Tabl.

(4) Mae trwydded triniaeth arbennig sy’n drwydded dros dro ac sydd ar gyfer triniaeth arbennig a nodir yn yr ail golofn yn y Tabl ym mharagraff (7) yn ddarostyngedig i’r amodau trwyddedu mandadol a nodir yn yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn y mae ei rhif wedi ei nodi yn y golofn gyntaf gyfatebol yn y Tabl.

(5) Mae trwydded triniaeth arbennig a ddyroddir i unigolyn sydd hefyd yn oruchwyliwr yn ddarostyngedig i’r amodau trwyddedu mandadol a nodir yn Atodlen 5 i’r Rheoliadau hyn.

(6) Mae trwydded triniaeth arbennig a ddyroddir i unigolyn sydd hefyd yn hyfforddai yn ddarostyngedig i’r amodau trwyddedu mandadol a nodir yn Atodlen 6 i’r Rheoliadau hyn.

(7)

**Tabl 1**

| *Rhif yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn* | *Y driniaeth arbennig* |
|---|---|

DRAFT

| | |
|---|---|
| 4 | Unrhyw driniaeth arbennig |
| 7 | Aciwbigo |
| 8 | Tyllu'r corff |
| 9 | Electrolysis |
| 10 | Tatŵio |

**Dehongli**

**10.** Yn y Rhan hon—

ystyr "cleient" ("*client*") yw person y rhoddir y driniaeth arbennig iddo;

ystyr "gweithfan" ("*workstation*") yw'r man, y gofod neu'r parth o fewn y man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys—

(a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu'n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig,

(c) troli a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig, a

(d) bin offer miniog;

ystyr "man gwaith triniaethau arbennig" ("*special procedures work area*") yw man neu ystafell lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu rhoi ac mae'n cynnwys unrhyw—

(a) basnau golchi dwylo,

(b) biniau gwastraff,

(c) gweithfannau, a

(d) cyfleusterau eraill a chyfarpar arall i gefnogi'r gwaith o roi'r driniaeth arbennig;

ystyr "rhan bersonol o'r corff" ("*intimate body part*") yw rhan o'r corff a restrir yn adran 96(2) o'r Ddeddf;

ystyr "rhan o'r corff nad yw'n rhan bersonol" ("*non-intimate body part*") yw rhan o'r corff nad yw wedi ei rhestru yn adran 96(2) o'r Ddeddf;

mae i "rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff" ("*intimate piercing*") yr ystyr a roddir yn adran 96(1) o'r Ddeddf;

ystyr "rhoi twll mewn rhan o'r corff nad yw'n rhan bersonol" ("*non-intimate piercing*") yw tyllu'r corff mewn rhan o'r corff nad yw'n rhan bersonol.

DRAFT

## Rhan 4

## Ffioedd

### Ffi am gais

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol yn pennu swm y ffi am gais at ddibenion paragraff 3(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol gydweithio, a chymryd unrhyw gydweithio o'r fath i ystyriaeth, wrth ystyried y ffi am gais sydd i'w gosod.

(3) Yn dilyn cydweithio o'r fath, mae pob awdurdod lleol i bennu—

(a) y ffi am gais, a

(b) yr amgylchiadau, yr achosion neu'r disgrifiadau o achosion (os oes rhai) pan na fo'n ofynnol talu unrhyw ffi am gais, neu pan fo'n ofynnol talu ffi ostyngol.

(4) Caiff pob awdurdod lleol adolygu lefel y ffi gyda'i gilydd—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o un flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a

(b) ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o dair blynedd wedi hynny.

(5) Wrth bennu'r ffi am gais, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r costau y maent yn mynd iddynt neu y disgwylir i awdurdodau fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â'r cais a'r gweithgareddau a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cael a chofnodi'r cais a chraffu arno,

(b) cynnal arolygiad cydymffurfedd (pan fo'n briodol),

(c) camau gweithredu dilynol sy'n gysylltiedig â'r arolygiad cydymffurfedd,

(d) cymeradwyo neu wrthod y cais, ac

(e) pennu gradd y swyddog sy'n gysylltiedig â phob un o'r swyddogaethau hyn.

(6) Ni chaniateir talu'r ffi am gais mewn rhandaliadau.

(7) Caiff awdurdod lleol ad-dalu'r cyfan neu ran o'r ffi am gais sydd eisoes wedi ei thalu.

(8) Os daw'n amlwg, ar ôl talu'r ffi am gais, y dylid bod wedi talu ffi lai, rhaid ad-dalu'r swm dros ben.

### Ffi gydymffurfio

**12.**—(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded dalu'r ffi gydymffurfio yn ôl y swm ac yn y modd a bennir gan yr awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn.

DRAFT

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol gydweithio, a chymryd unrhyw gydweithio o'r fath i ystyriaeth, wrth ystyried y ffi gydymffurfio sydd i'w gosod.

(3) Yn dilyn cydweithio o'r fath, mae pob awdurdod lleol i bennu—

(a) y ffi gydymffurfio, a

(b) yr amgylchiadau, yr achosion neu'r disgrifiadau o achosion (os oes rhai) pan fo'n ofynnol talu ffi gydymffurfio ostyngol.

(4) Caiff pob awdurdod lleol adolygu lefel y ffi gyda'i gilydd—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o un flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a

(b) ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o dair blynedd wedi hynny.

(5) Wrth bennu'r ffi gydymffurfio, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r costau y maent yn mynd iddynt neu y disgwylir i awdurdodau fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin ag adran 76(1) o'r Ddeddf a'r gweithgareddau a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cynnal cofnodion cywir ar gronfa ddata'r awdurdod lleol a'r gofrestr a sefydlwyd o dan adran 75 o'r Ddeddf,

(b) gwneud ymweliadau dirybudd,

(c) cymryd camau gweithredu anffurfiol neu ffurfiol o ganlyniad i ymweliad neu ar gais cleient, a

(d) pennu gradd y swyddog sy'n gysylltiedig â phob un o'r swyddogaethau hyn.

(6) Ni chaniateir talu'r ffi gydymffurfio mewn rhandaliadau.

(7) Caiff awdurdod lleol ad-dalu'r cyfan neu ran o'r ffi gydymffurfio sydd eisoes wedi ei thalu.

(8) Os daw'n amlwg, ar ôl talu'r ffi gydymffurfio, y dylid bod wedi talu ffi lai, rhaid ad-dalu'r swm dros ben.

(9) Oni bai bod y ffi gydymffurfio wedi ei thalu, ni chaiff deiliad trwydded fwrw ymlaen â chais nac â chais am dystysgrif gymeradwyo.

(10) Caniateir i unrhyw ffi gydymffurfio sy'n ddyledus i awdurdod lleol ac sy'n parhau i fod heb ei thalu fod yn adenilladwy gan yr awdurdod lleol hwnnw drwy ddyled sifil.

*Enw*
Dyddiad

DRAFT

Atodlen 1 Rheoliad 3(1)

Ffurf y cais am drwydded triniaeth arbennig

[*Rhowch enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol perthnasol a'i logo (dewisol) yma*]

**Cais am drwydded triniaeth arbennig o dan adran 59(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

**DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU A'R NODIADAU CYFARWYDDYD CYSYLLTIEDIG A GANLYN YN GYNTAF**

**Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, ysgrifennwch yn glir mewn priflythrennau gan ddefnyddio inc. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen (wedi eu marcio â'r pennawd "Dalen barhad - cais am drwydded triniaeth arbennig" a chofiwch gynnwys rhif y cwestiwn perthnasol ac enw a chyfeiriad y ceisydd). Efallai y byddwch am gadw copi o'r ffurflen wedi ei llenwi ar gyfer eich cofnodion.**

## Rhan 1 – Manylion y cais

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**1.1. Pa fath o drwydded triniaeth arbennig y mae eich cais yn ymwneud â hi?**

Dros dro (dim mwy na 7 niwrnod) ☐ 3 blynedd ☐

***Os ydych yn gwneud cais am drwydded dros dro, nodwch pam y mae trwydded triniaeth arbennig yn ofynnol (er enghraifft, rhowch fanylion ynghylch arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad):***

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

**1.3 Pryd rydych chi am i'r drwydded triniaeth arbennig ddechrau?**

Cyn gynted â phosibl ☐

Neu

Dyddiadau penodol ☐ (nodwch y dyddiadau rydych chi am i'r drwydded triniaeth arbennig eu cwmpasu)

.............................. i ……………………………..

Neu

Amcan ddyddiadau ☐ (nodwch yn fras y dyddiadau rydych chi am i'r drwydded triniaeth arbennig eu cwmpasu)

………………………… i ………………………………

**1.4 A ydych chi'n hyfforddai sy'n gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig?**

DRAFT

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Os ydych, darparwch fanylion eich goruchwyliwr arfaethedig isod**

**Enw llawn y goruchwyliwr:** ..............................

**Rhif trwydded y goruchwyliwr:** ............................

**Os yw cais y goruchwyliwr am drwydded triniaeth arbennig yn yr arfaeth, darparwch y dyddiad y gwnaed y cais ac i ba awdurdod lleol:**

..................................................................................

..................................................................................

**1.5 A ydych chi'n goruchwylio hyfforddai/hyfforddeion?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Rhan 2 – Manylion y ceisydd (llenwch fel y bo'n gymwys)

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**2.1 Teitl:** Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Dr ☐ Arall ☐ (nodwch os gwelwch yn dda) …………………………..

**2.2 Cyfenw:** ......................................................

**2.3 Enw(au) cyntaf:** .....................................................

**2.4 Enwau hysbys eraill:** ......................................................
(Er enghraifft, enw masnachu, enw arall neu ffugenw)

**2.5 Enw masnachu arfaethedig y ceisydd:** ......................................

**2.6 Rhif ffôn cyswllt:** .....................................................

**2.7 Rhif ffôn cyswllt arall (dewisol):** ................................................

**2.8 Cyfeiriad e-bost (os yw'n gymwys):** .. .......................................................................

**2.9 Dyddiad Geni:** ...............................................

**2.10 Cyfeiriad preswylio arferol y ceisydd:**

.........................................................................................................................

..................................................... Cod post: ............................................

**2.11 Cyfeiriad busnes y ceisydd (os yw'n wahanol):**

.........................................................................................................................

..................................................... Cod post: ............................................

**2.12 Ticiwch y datganiad isod sy'n gymwys i chi (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 1*):**

DRAFT

Rwyf yn gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol a ddyroddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ☐

Nid wyf yn gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol ac felly rwyf wedi cael tystysgrif cofnod troseddol dramor ☐

## Rhan 3 – Natur y driniaeth/triniaethau arbennig sydd i'w rhoi

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**3.1 Rhestrwch y triniaethau arbennig y byddwch yn eu rhoi:**

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

**3.2 Os yw triniaeth arbennig i'w rhoi ar ran bersonol o'r corff, darparwch fanylion pellach:**

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

**3.3 Ydych chi'n cyflawni unrhyw weithgareddau eraill yng nghwrs eich busnes (er enghraifft, gweithgareddau nad ydynt yn driniaethau arbennig)?**

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Os ydych, rhestrwch y gweithgareddau eraill hynny:**

....................................................................................................................

**3.4 Nodwch eich statws gwaith mewn cysylltiad â rhoi triniaethau arbennig (ticiwch bob un sy'n gymwys):**

Rwyf yn gweithio ar sail beripatetig ☐
Rwyf yn berchen ar fusnes ac yn gweithio yn y busnes hwnnw ☐
Rwyf yn gyflogai mewn busnes ☐
Rwyf yn hunangyflogedig ☐
Rwyf yn rheoli busnes ☐
Rwyf yn rhentu ystafell/cadair gan fangre neu gerbyd a gymeradwywyd ond nid wyf yn gyflogai yn y busnes hwnnw ☐
Rwyf yn goruchwylio hyfforddai ☐
Rwyf yn hyfforddai ☐
Arall (rhowch fanylion) ☐ …………………………………………………………………….

**3.5 Cyfeiriad gwefan y busnes (os yw'n gymwys):**

..................................................................................................

**3.6 Darparwch fanylion (gan gynnwys cyfeiriad(au), os yw'n gymwys) unrhyw fangreoedd a/neu gerbydau a gymeradwywyd lle y mae triniaeth arbennig i'w rhoi ac a fydd yn cael eu nodi ar eich trwydded triniaeth arbennig. Pan fo'n bosibl, darparwch rif y dystysgrif gymeradwyo ar gyfer y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw a gymeradwywyd)** *[Os ydych yn hyfforddai sy'n gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig, rhaid cyfyngu hyn i un fangre neu gerbyd a gymeradwywyd]***:**

..........................................,...........................................

.............................................................................................

DRAFT

...........................................................................................

...........................................................................................

## Rhan 4 – Euogfarnau am droseddau perthnasol

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**4.1 A oes gennych euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol? *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2)***

Oes ☐ Nac oes ☐

**4.2 Os oes, darparwch yr wybodaeth a ganlyn:**

**Trosedd:** ......................................................

**Dyddiad yr euogfarn:** ............................................

**Llys:** ..............................................

**Cosb/dedfryd:** ..............................................

**Hyd y ddedfryd (os yw'n gymwys):** .........................................

*[Pan fo mwy nag un euogfarn, defnyddiwch ddalen ychwanegol wedi ei nodi'n glir â'r pennawd "Euogfarnau am droseddau perthnasol". Dylai'r ddalen gynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani yn 4.2.]*

## Rhan 5 – Amrywiol (llenwch fel y bo'n gymwys)

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**5.1 A oes hysbysiad adran 61(1) (dynodi person i gael trwydded gweithdrefn arbennig) wedi ei gyflwyno i chi?**

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os oes, darparwch fanylion (gan gynnwys enw'r awdurdod lleol sy'n dyroddi'r dynodiad, y dyddiad dyroddi a rhesymau'r awdurdod lleol dros y dynodiad):**

.......................................................................................................................................

.......................................................................................................................................

**5.2 A ydych chi wedi gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig o'r blaen? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)**

Nac ydw ☐ Ydw – cais am drwydded wedi ei ganiatáu ☐ Ydw – cais i amrywio trwydded wedi ei ganiatáu ☐

Ydw – cais i adnewyddu trwydded wedi ei ganiatáu ☐

Ydw – cais (am drwydded, i amrywio a/neu i adnewyddu) wedi ei ganiatáu a'r drwydded wedi ei dirymu ☐

Ydw – cais (am drwydded, i amrywio a/neu i adnewyddu) wedi ei wrthod ☐

**Os ydych wedi ateb 'ydw' i unrhyw un o'r uchod, darparwch fanylion pellach (gan gynnwys rhif y drwydded):**

DRAFT

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

**5.3 A oes gennych dystysgrif ar gyfer mangre a/neu gerbyd a gymeradwywyd ar gyfer rhoi triniaeth arbennig?**

Oes ☐ Nac oes ☐ Cais yn yr arfaeth ☐

**Os oes, darparwch rif y dystysgrif gymeradwyo:** ................................................................

**Os oes cais yn yr arfaeth, darparwch y dyddiad y gwnaed y cais:**

.....................................................

**5.3 A wnewch chi gadarnhau pa iaith yr hoffech ei defnyddio wrth drafod eich cais â'r awdurdod lleol:**

Cymraeg ☐ Saesneg ☐

**5.5 Nodwch unrhyw wybodaeth arall rydych yn ystyried ei bod yn berthnasol i'ch cais *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2)*:**

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

## Rhan 6 – Datganiad a Rhestr Wirio (llenwch/ticiwch)

<u>Cymwys i bob ceisydd</u>

**Rwyf yn cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais hwn yn wir. Deallaf ei bod yn drosedd o dan adran 82(7) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth yr wyf yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol yn y cais hwn, neu mewn perthynas ag ef, neu yr wyf yn ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.**

**Deallaf y gallai rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol (pa un ai'n fwriadol neu'n ddi-hid) arwain at ddirymu fy nhrwydded triniaeth arbennig.**

**Deallaf, os byddaf yn methu â datgelu trosedd berthnasol, neu fanylyn perthnasol mewn perthynas â hi, y gall hyn arwain at ddirymu fy nhrwydded triniaeth arbennig.**
☐

**Rwyf hefyd yn cadarnhau'r canlynol:**

☐ **Rwyf wedi darllen a deall yr amodau trwyddedu mandadol a fydd ynghlwm wrth fy nhrwydded, ac**

☐ **Rwyf yn deall goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu mandadol hynny.**

<u>Cymwys i oruchwyliwr sy'n cydlofnodi ffurflen gais hyfforddai</u>

**Rwyf yn cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais hwn yn wir. Deallaf ei bod yn drosedd o dan adran 82(7) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn y cais hwn, neu mewn perthynas ag ef, neu yr wyf yn ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.**

**Deallaf y gallai rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol (pa un ai'n fwriadol neu'n ddi-hid) arwain at ddirymu fy nhrwydded triniaeth arbennig.**

DRAFFT

☐

**Rhestr wirio:**

- **Mae'r taliad am y ffi am gais wedi ei wneud/wedi ei amgáu** ☐
- **Mae'r ffurflen gais wedi ei llenwi'n gyflawn ac wedi ei llofnodi** ☐
- **Mae tystiolaeth o Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir wedi ei hamgáu** ☐
- **Mae tystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys wedi ei hamgáu** ☐
- **Mae tystiolaeth o dystysgrif datgeliad sylfaenol/tystysgrif cofnod troseddol dramor wedi ei hamgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 1*)** ☐
- **Mae copïau o ddogfennau i wirio hunaniaeth deiliad arfaethedig y drwydded wedi eu hamgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4*)** ☐
- **Mae ffotograff lliw diweddar wedi ei amgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5*)** ☐
- **Deallaf os na chydymffurfir â'r gofynion uchod y gallai'r cais gael ei wrthod** ☐

## Rhan 7 – Llofnod

**7.1 Llofnod y ceisydd (deiliad arfaethedig y drwydded triniaeth arbennig)**

**Llofnod:** ......................................................

**Enw (mewn priflythrennau):** ...................................................

**Dyddiad:** ................................................................

**7.2 Llofnod y goruchwyliwr (os yw'n gymwys)**

**Llofnod:** .........................................

**Enw (mewn priflythrennau):** .......................................

**Dyddiad:** ................................................

[*Pan fo'r cais i'w gyflwyno ar ffurf electronig, dylid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a dylai fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig y person.*]

## Nodiadau Cyfarwyddyd

**Nodyn 1: Cymhwystra i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol neu dystysgrif cofnod troseddol o dramor**
Rhaid i geisydd gyflwyno gyda'r ffurflen gais hon naill ai:

(a) tystysgrif datgeliad sylfaenol a ddyroddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu
(b) tystysgrif cofnod troseddol dramor.

Ni chaiff unrhyw dystysgrif fod yn hŷn na thri mis (o'r dyddiad dyroddi).

Pan fo'n bosibl, darparwch gopi electronig o'ch tystysgrif datgeliad sylfaenol. Wrth wneud hynny, rydych yn rhoi caniatâd i rannu'r canlyniad yn electronig â'r awdurdod lleol yr ydych yn gwneud cais iddo.

Ni fydd tystysgrif datgeliad sylfaenol yn cwmpasu'r amser y mae ceisydd wedi ei dreulio'n byw y tu allan i'r DU. Rhaid i geisydd nad yw'n gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol neu sydd wedi treulio mwy na 6 mis yn byw y tu allan i'r DU gael tystysgrif cofnod troseddol dramor. Mae'r broses o wneud cais am wiriadau cofnodion troseddol ar gyfer ceisydd o dramor yn amrywio o wlad i wlad. Efallai y bydd angen i geisydd wneud cais yn y wlad honno neu i'r llysgenhadaeth berthnasol yn y DU.

**Nodyn 2: Euogfarnau am droseddau perthnasol**
Bydd tystysgrif datgeliad sylfaenol yn dangos euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddiadau amodol ceisydd.

DRAFT

**Nodyn 3: Darparu gwybodaeth berthnasol i fynd gyda ffurflen gais**
Caiff ceisydd gyflwyno unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol i'w gais. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wybodaeth bellach (gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol) mewn perthynas ag unrhyw euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol y mae'r ceisydd wedi ei datgan ar y ffurflen gais hon.

**Nodyn 4: Dogfennau adnabod**
Rhaid i bob ceisydd ddarparu prawf o'i enw llawn a'i ddyddiad geni. Caniateir y mathau canlynol o ddogfennau adnabod ffotograffig:

- Pasbort dilys neu drwydded yrru ddilys,
- Os nad oes gan y ceisydd yr un o'r uchod yna ystyrir bod y cardiau adnabod ffotograffig canlynol yn addas; trwydded breswylio fiometrig; cerdyn adnabod Lluoedd EF; cerdyn adnabod cenedlaethol yr AEE; Cerdyn Pasbort Gwyddelig; fisa neu drwydded waith.

**Nodyn 5: Ffotograff lliw diweddar**
Rhaid i bob ceisydd gyflwyno ffotograff lliw diweddar ohono ei hun. Rhaid i'r ffotograff:

- fod yn ffotograff maint a steil pasbort y DU,
- bod wedi ei dynnu o flaen cefndir golau fel bod nodweddion y ceisydd i'w gweld yn eglur mewn gwrthgyferbyniad â'r cefndir,
- dangos wyneb y ceisydd yn glir. Rhaid i'w fynegiant fod yn niwtral ac ni chaiff wisgo unrhyw beth sy'n gorchuddio ei ben na'i wallt (ac eithrio am resymau crefyddol neu feddygol),
- bod yn wirioneddol debyg i'r ceisydd.

DRAFFT

## Atodlen 2 Rheoliad 8(1)(a)

## Ffurf a chynnwys trwydded triniaeth arbennig – Rhan 1 – cerdyn llun

Blaen y cerdyn llun

[Enw'r awdurdod lleol sy'n dyroddi a'i logo (dewisol)]

**TRWYDDED TRINIAETH ARBENNIG**

**TRWYDDED DROS DRO** [*Dileer os nad yw'n gymwys*]

**DEILIAD TRWYDDED DAN HYFFORDDIANT** [*Dileer os nad yw'n gymwys*]

**Dyddiad Dyroddi:**

**Dyddiad Dod i Ben:**

**Rhif y drwydded:**

**Awdurdod lleol sy'n dyroddi**

**Enw deiliad y drwydded:**

**Ffotograff o ddeiliad y drwydded:**

Cefn y cerdyn llun

[Enw'r awdurdod lleol sy'n dyroddi a'i logo (dewisol)]

**Cyfeiriad preswyl neu gyfeiriad busnes deiliad y drwydded:**

**Triniaethau arbennig a awdurdodir gan y drwydded hon:**

[*Rhestrwch y triniaethau arbennig*]

**Mangreoedd a/neu gerbydau a gymeradwywyd:**

[*Nodwch gyfeiriad y fangre*]
[*Yn achos cerbyd, y rhif cofrestru*]
[*Yn achos cerbyd heb rif cofrestru, nodwch y cerbyd ym mha ffordd bynnag y mae'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn ystyried ei bod yn briodol*]

**Rhaid darllen y drwydded hon ar y cyd â Rhan 2 o'r drwydded, a ddyroddir yr un pryd.**

**NID YW'R DRWYDDED HON YN DROSGLWYDDADWY**

DRAFT

## Atodlen 3 Rheoliad 8(1)(b)

## Ffurf a chynnwys trwydded triniaeth arbennig – Rhan 2 – papur A4

[*Enw'r awdurdod lleol sy'n dyroddi a'i logo (dewisol)*]

**TRWYDDED TRINIAETH ARBENNIG**

**TRWYDDED DROS DRO** [*Dileer os nad yw'n gymwys*]

**DEILIAD TRWYDDED DAN HYFFORDDIANT** [*Dileer os nad yw'n gymwys*]

**Dyddiad Dyroddi:**

**Dyddiad Dod i Ben:**

**Rhif y drwydded:**

**Awdurdod lleol sy'n dyroddi:**

**Enw deiliad y drwydded:**

**Ffotograff o ddeiliad y drwydded:**

**Cyfeiriad preswyl neu gyfeiriad busnes deiliad y drwydded:**

**Triniaethau arbennig a awdurdodir gan y drwydded hon:**

[*Rhestrwch y triniaethau arbennig*]

**Mangreoedd a/neu gerbydau a gymeradwywyd:**

[*Nodwch gyfeiriad y fangre*]
[*Yn achos cerbyd, y rhif cofrestru*]
[*Yn achos cerbyd heb rif cofrestru, nodwch y cerbyd ym mha ffordd bynnag y mae'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn ystyried ei bod yn briodol*]

**Mae'r drwydded hon yn ddarostyngedig i'r amodau trwyddedu mandadol sydd ynghlwm wrth y drwydded hon.**

**NID YW'R DRWYDDED HON YN DROSGLWYDDADWY**

DRAFT

# Atodlen 4 Rheoliad 9(7)

## Amodau trwyddedu mandadol cymwys ar gyfer trwydded triniaeth arbennig

**Cyffredinol**

1. Rhaid i ddeiliad y drwydded weithredu yn unol â'r drwydded a ddyroddwyd ac â'r amodau trwyddedu mandadol.

2. Ni chaiff deiliad y drwydded ond rhoi triniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a bennir ar ei drwydded (oni bai bod eithriadau'n gymwys).

3. Ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd, nac mewn unrhyw ran ohoni neu ohono, pan fo amgylchiadau'n peri, neu'n debygol o beri, risg o niwed i iechyd dynol.

4. Ni chaiff deiliad y drwydded ond rhoi'r driniaeth arbennig yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

5. Yn achos trwydded dros dro, rhaid i ddeiliad y drwydded weithredu mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r amodau cymeradwyo dros dro sydd ynghlwm wrth y dystysgrif gymeradwyo honno.

**Materion sy'n ymwneud â'r drwydded**

6. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ei drwydded yn cael ei harddangos mewn safle yn ei weithle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd, a bod copi o'r amodau trwyddedu mandadol ar gael yn rhwydd ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gleient.

7. Nid yw'r drwydded yn drosglwyddadwy ac ni chaniateir i unrhyw berson arall ei defnyddio. Ni chaniateir ei haddasu mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

8. Mewn achos pan fo'r drwydded triniaeth arbennig wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y drwydded gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl talu'r ffi am gais.

DRAFT

9. Rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r awdurdod lleol sy'n dyroddi am unrhyw euogfarn(au) am drosedd berthnasol a gafwyd yn ystod cyfnod ei drwydded o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cael ei euogfarnu. Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys dyddiad yr euogfarn, manylion y drosedd berthnasol, y ddedfryd/gosb a roddwyd (gan gynnwys hyd unrhyw ddedfryd) ac unrhyw wybodaeth arall sy'n rhesymol ofynnol gan yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.

10. Ni chaniateir ystyried cais i amrywio trwydded triniaeth arbennig ond gan yr awdurdod lleol sy'n dyroddi ar ôl i gais i amrywio gael ei ddarparu i'r awdurdod lleol hwnnw ac i unrhyw ffi gael ei thalu. Dim ond ar ôl i'r awdurdod lleol hwnnw gymeradwyo'r cais y gellir amrywio trwydded triniaeth arbennig.

11. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddeiliad trwydded sy'n dymuno rhoi triniaeth arbennig mewn arddangosfa neu ddigwyddiad adloniant nad yw'n para dim hwy na saith niwrnod. Byddai'r drwydded yn awdurdodi hyn heb ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded wneud cais i amrywio ei drwydded er mwyn nodi'r fangre neu'r cerbyd dros dro a gymeradwywyd ar ei drwydded triniaeth arbennig.

12. Rhaid i gais i adnewyddu trwydded triniaeth arbennig gael ei wneud o leiaf 28 o ddiwrnodau gwaith cyn i gyfnod y drwydded a restrir ar y drwydded triniaeth arbennig ddod i ben.

13. Ni chaniateir ystyried cais i adnewyddu trwydded triniaeth arbennig ond gan yr awdurdod lleol sy'n dyroddi ar ôl i gais i adnewyddu gael ei ddarparu i'r awdurdod lleol hwnnw ac i unrhyw ffi gael ei thalu. Dim ond ar ôl i'r awdurdod lleol hwnnw gymeradwyo'r cais y gellir adnewyddu trwydded triniaeth arbennig.

14. Rhaid dychwelyd y drwydded sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.

**Y cleient ac ymgynghori â chleient**

15. Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i gleient os yw'n amau nad yw'r cleient yn ffit ac yn iach.

DRAFT

16. Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i unigolyn sy’n feddw, neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall.

17. Rhaid i ddeiliad y drwydded gwblhau ymgynghoriad cyn triniaeth gyda’r cleient, a phan fo’n briodol, gyda rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, cyn rhoi’r driniaeth arbennig. Rhaid i’r ymgynghoriad hwn fod ar ffurf ffurflen ymgynghori cyn triniaeth a rhaid iddi gynnwys:

    a) enw’r cleient,
    b) cadarnhad o oedran y cleient,
    c) manylion cyswllt y cleient,
    d) esboniad llawn o’r broses, y risgiau a’r gwrtharwyddion sy’n gysylltiedig â’r driniaeth arbennig,
    e) esboniad o effeithiau cymdeithasol triniaeth arbennig a roddir ar wyneb neu wddf y cleient (os yw’n gymwys), ac
    f) hanes meddygol perthnasol, gan gynnwys cyflyrau iechyd arwyddocaol neu berthnasol fel clefyd y galon, epilepsi, diabetes, cyflyrau sy’n peryglu imiwnedd, alergeddau, beichiogrwydd a manylion meddyginiaeth ragnodedig gan gynnwys gwrthgeulyddion.

18. Rhaid i’r ffurflen ymgynghori cyn triniaeth wedi ei llenwi gael ei llofnodi gan ddeiliad y drwydded a’i chydlofnodi gan y cleient a, phan fo’n briodol, riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient.

19. Pan nodir unrhyw wrtharwyddion yn ystod yr ymgynghoriad cyn triniaeth, rhaid i ddeiliad y drwydded ei sicrhau ei hun fod modd rhoi’r driniaeth arbennig yn ddiogel o hyd. Os oes gan ddeiliad y drwydded unrhyw bryderon ynghylch iechyd y cleient, ni ddylai deiliad y drwydded fwrw ymlaen nes ei fod wedi cael cyngor meddygol neu gymeradwyaeth gan ymarferydd cyffredinol neu feddyg ymgynghorol y cleient. Rhaid cynnwys copi o’r wybodaeth hon yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded ar gyfer y cleient.

20. Rhaid i ddeiliad y drwydded gwblhau ymgynghoriad ar ôl triniaeth gyda’r cleient, a phan fo’n briodol, gyda rhiant neu

DRAFT

warcheidwad cyfreithiol y cleient, ar ôl rhoi'r driniaeth arbennig.

21. Rhaid i'r ymgynghoriad ar ôl triniaeth gynnwys esboniad o ofynion ôl-ofal y driniaeth arbennig a roddwyd.

22. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod cyngor ôl-ofal yn cael ei ddarparu i'r cleient mewn fformat hawdd ei ddeall. Rhaid ei roi ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r cleient, a rhaid iddo gynnwys manylion cyswllt deiliad y drwydded a roddodd y driniaeth arbennig. Rhaid cynnwys copi o'r cyngor yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded ar gyfer y cleient.

**Cadw cofnodion**

23. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig am gleientiaid yn cael eu cadw am gyfnod o 3 blynedd. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys copi o'r ffurflen ymgynghori cyn triniaeth wedi ei chwblhau a'i llofnodi.

24. Rhaid i ddeiliad y drwydded gofnodi cofrestr digwyddiadau, ymateb iddi a'i chynnal. Rhaid i'r gofrestr hon gynnwys manylion unrhyw ddigwyddiad megis:

    a) dyddiad y digwyddiad,
    b) enw a manylion cyswllt yr unigolyn a roddodd wybod am y digwyddiad, ac
    c) y camau gweithredu a gymerwyd gan ddeiliad y drwydded.

25. Pan fo deiliad y drwydded yn cael gwybod am ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â thriniaeth arbennig y mae ef wedi ei rhoi, rhaid iddo gwblhau'r gofrestr digwyddiadau a chymryd unrhyw gamau adfer sy'n angenrheidiol i atal hyn rhag digwydd eto.

26. Rhaid i ddeiliaid trwydded sicrhau bod eu sicrwydd yswiriant yn parhau i fod yn ddilys drwy gydol cyfnod eu trwydded. Rhaid i dystysgrifau yswiriant fod ar gael yn rhwydd i'w harolygu gan unrhyw swyddogion awdurdodedig o'r awdurdod lleol.

**Arferion diogelwch a hylendid deiliad y drwydded**

27. Gwaherddir deiliad y drwydded rhag rhoi inc na phigment ym mhelen llygad unrhyw unigolyn.

28. Rhaid i ddeiliad y drwydded barhau i ddatblygu, diweddaru a chynnal ei wybodaeth



DRAFT

am atal a rheoli heintiau a'i sgiliau o ran y driniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi. Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal cofnod ysgrifenedig o'r modd y mae wedi bodloni'r gofyniad hwn.

29. Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i unigolyn pan fo'r driniaeth wedi ei pheryglu, neu'n debygol o gael ei pheryglu, gan y ffaith ei fod ef ei hun yn feddw yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall.

30. Ni chaiff deiliad y drwydded ysmygu, fepio, bwyta bwyd nac yfed diod yn y man gwaith triniaethau arbennig.

31. Rhaid i ddeiliad y drwydded arfer hylendid dwylo rheolaidd a thrylwyr.

32. Rhaid i ewinedd deiliad y drwydded fod yn lân, heb addurn na gorchudd ewinedd.

33. Rhaid i ddeiliad y drwydded orchuddio unrhyw glwyfau agored, briwiau neu gornwydydd ar ran o'i gorff nad yw wedi ei gorchuddio â dresin anathraidd.

34. Rhaid newid unrhyw gyfarpar diogelu personol untro, tafladwy, rhwng pob cleient neu pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.

35. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau mai dim ond raseli untro tafladwy a ddefnyddir i gynorthwyo wrth roi'r driniaeth arbennig.

36. Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal asesiad gweledol o gyflwr croen y cleient lle y mae'r driniaeth arbennig i'w rhoi, a dihalogi'r croen cyn rhoi'r driniaeth arbennig.

37. Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig ar groen nad yw'n gyflawn.

38. Ni chaiff deiliad y drwydded ragnodi na defnyddio unrhyw anesthetig argroenol oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r amodau trwydded a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

39. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ei weithfan yn cael ei glanhau a'i diheintio'n effeithiol rhwng pob cleient.

DRAFT

40. Rhaid i bob triniaeth arbennig gael ei rhoi mewn amgylchedd preifat sy’n briodol ar gyfer y driniaeth arbennig a roddir.

41. Ni chaiff deiliad y drwydded ond caniatáu i gleient ddod â chi cymorth gydag ef os nad yw presenoldeb y ci yn ystod y driniaeth arbennig yn peri risg uwch o haint.

**Gosodiadau a ffitiadau**

42. Mae unrhyw osodiad neu ddodrefnyn a ddefnyddir gan y cleient yn ystod y driniaeth arbennig i’w orchuddio â dalen bapur dafladwy, lliain neu gyffelyb, sydd i’w newid rhwng pob cleient.

43. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl osodiadau, ffitiadau a dodrefn sy’n gysylltiedig â’i weithfan wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll a’u bod mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

**Cyfarpar ac offerynnau**

44. Rhaid i’r holl gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded gael eu defnyddio, eu cynnal, a phan fo’n briodol, eu gwasanaethu a’u dilysu yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr. Rhaid cynnal cofnodion gwasanaethu a dilysu.

45. Rhaid i’r holl offerynnau a chyfarpar a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded fod wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll y gellir ei lanhau, ei ddiheintio, a phan fo’n briodol, ei sterileiddio yn hawdd.

46. Rhaid cadw offerynnau a chyfarpar mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau effeithiol a rhaid eu defnyddio a’u storio mewn ffordd sy’n lleihau’r risg o halogiad.

47. Ni chaiff deiliad y drwydded byth ailddefnyddio nac ailbrosesu eitemau untro.

48. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau, o ran unrhyw gyfarpar nad yw’n dafladwy, na ellir ei sterileiddio, ac sy’n debygol o ddod i gysylltiad â hylifau corfforol neu safle’r driniaeth arbennig, nad yw’n dod i gysylltiad o’r fath. Rhaid glanhau a diheintio cyfarpar o’r fath yn drylwyr ar ôl pob defnydd.

49. Os defnyddir offerynnau nad ydynt yn rhai tafladwy wrth roi triniaeth arbennig, ar ôl eu defnyddio rhaid i ddeiliad y drwydded eu glanhau a’u trin â chyfarpar glanhau, diheintio a sterileiddio sy’n addas i’r diben megis

DRAFT

glanhawyr uwchsain, baddonau offerynnau ac awtoclafau a chydau awtoclaf. Nid yw hyn yn gymwys i nodwyddau (gweler paragraff 50).

50. Rhaid i unrhyw offeryn, cyfarpar, gemwaith, neu wrthrych sy'n cael ei atodi i groen neu bilen fwcaidd y cleient, ei fewnblannu neu ei fewnosod yn ei groen neu ei bilen fwcaidd, neu ei dynnu o'i groen neu o'i bilen fwcaidd, fod yn ddi-haint pan gaiff ei ddefnyddio.

51. Ni chaiff deiliad y drwydded ond defnyddio nodwyddau di-haint, untro, tafladwy.

52. Rhaid i ddeiliad y drwydded allu cael gafael ar becyn cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio'n addas, sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n cynnwys stoc sylfaenol o eitemau i ddiwallu anghenion cymorth cyntaf y driniaeth arbennig a roddir.

**Gwastraff**

53. Os yw'n gymwys, rhaid i ddeiliad y drwydded gael a defnyddio bin offer miniog sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfredol a osodir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig. Rhaid cadw a defnyddio'r bin offer miniog yn y man gwaith triniaethau arbennig.

54. Mae deiliad y drwydded i sicrhau bod gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus yn cael ei wahanu'n briodol a'i roi yn y bagiau lliw cywir. Os yw'n gymwys, rhaid i ddeiliad y drwydded hefyd waredu'r bagiau lliw hynny.

DRAFT

## Atodlen 5 Rheoliad 9(5)

## Amodau trwyddedu mandadol cymwys ar gyfer goruchwylwyr

1. Rhaid i'r goruchwyliwr fod yn ddeiliad trwydded.

2. Rhaid i'r goruchwyliwr oruchwylio'r hyfforddai wrth i'r hyfforddai roi'r driniaeth arbennig i gleient.

3. Caiff y goruchwyliwr wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi i amrywio ei drwydded triniaeth arbennig er mwyn dileu'r amodau trwyddedu mandadol ar gyfer goruchwylwyr.

DRAFFT

# Atodlen 6 Rheoliad 9(6)

## Amodau trwyddedu mandadol cymwys ar gyfer hyfforddeion

1. Yn ystod yr ymgynghoriad cyn triniaeth, rhaid i'r hyfforddai hysbysu'r cleient am ei statws fel hyfforddai a'r amodau trwyddedu mandadol ychwanegol sydd ynghlwm wrth ei drwydded.

2. Ni chaiff yr hyfforddai ond rhoi'r driniaeth arbennig o dan oruchwyliaeth ei oruchwyliwr.

3. Ni chaiff yr hyfforddai ond rhoi'r driniaeth arbennig yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd sydd wedi ei nodi ar ei drwydded.

4. Rhaid gwneud cais i amrywio trwydded triniaeth arbennig i'r awdurdod lleol a ddyroddodd y drwydded triniaeth arbennig.

5. O ran gwneud cais i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi i amrywio ei drwydded triniaeth arbennig er mwyn dileu'r amodau trwyddedu mandadol ar gyfer hyfforddeion, ni chaiff yr hyfforddai ond gwneud y cais os yw ei oruchwyliwr wedi ei fodloni fod yr hyfforddai yn gallu rhoi'r driniaeth arbennig heb oruchwyliaeth.

6. Os yw'r hyfforddai yn gwneud cais i amrywio yn unol ag amod 5 (uchod), rhaid anfon y drwydded triniaeth arbennig yn ôl i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi er mwyn gallu ailddyroddi'r drwydded triniaeth arbennig.

7. Rhaid i'r hyfforddai wneud cais am drwydded triniaeth arbennig newydd os yw'n dymuno trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ei oruchwylio i ddeiliad trwydded arall neu newid y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd sydd wedi ei nodi ar ei drwydded.

DRAFT

# Atodlen 7 Rheoliad 9(7)

## Amodau trwyddedu mandadol cymwys mewn perthynas ag aciwbigo

1. Ni chaiff deiliad trwydded roi triniaeth aciwbigo ar ran bersonol o gorff cleient o dan 18 oed. Yr unig eithriad fyddai pe bai triniaeth aciwbigo yn cael ei rhoi yng nghwrs triniaeth feddygol.

2. Ni chaiff deiliad trwydded roi triniaeth aciwbigo ar ran o'r corff nad yw'n rhan bersonol o gorff cleient o dan 16 oed heb gydsyniad ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient. Rhaid i'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol fod yn bresennol drwy gydol y driniaeth arbennig.

3. Rhaid i ddeiliad trwydded olchi a sychu ei ddwylo'n drylwyr yn union cyn ac ar ôl rhoi triniaeth aciwbigo i bob cleient.

4. Rhaid i ddeiliad trwydded wisgo menyg llawfeddygol untro sy'n ffitio'n dda pan—

    a) bo'r cleient yn gwaedu neu pan fo ganddo friw agored ar ran o'i gorff nad yw wedi ei gorchuddio,
    b) bo'n hysbys bod y cleient wedi ei heintio â feirws a gludir yn y gwaed,
    c) bo gan ddeiliad y drwydded friw agored, croen wedi torri neu haint ar y croen ar ei law, a
    d) bo deiliad y drwydded yn trin a thrafod eitemau a allai fod wedi eu halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill.

5. Pan ofynnir i ddeiliad y drwydded roi triniaeth aciwbigo i gleient at ddibenion darparu gofal lliniarol, rhaid iddo gynnwys y camau canlynol yn ystod yr ymgynghoriad cyn triniaeth—

    a) cynnal a chofnodi asesiad o'r ardal lle y mae'r driniaeth aciwbigo i'w rhoi, gan roi sylw dyladwy i unrhyw risgiau a allai achosi niwed i iechyd dynol,
    b) pan fo'r asesiad yn nodi unrhyw risg a allai achosi niwed i iechyd dynol, cymryd camau gweithredu priodol i liniaru'r niwed cyn rhoi'r driniaeth

DRAFT

arbennig neu beidio â rhoi'r driniaeth arbennig nes bod y niwed wedi ei ddileu, ac

c) cynnwys copi o'r asesiad yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded am y cleient.

DRAFFT

# Atodlen 8 Rheoliad 9(7)

## Amodau trwyddedu mandadol cymwys mewn perthynas â thyllu'r corff

1. Ni chaiff deiliad y drwydded roi, na gwneud trefniadau i roi, twll mewn rhan bersonol o gorff cleient o dan 18 oed. Yr unig eithriad fyddai pe bai triniaeth tyllu'r corff yn cael ei rhoi yng nghwrs triniaeth feddygol.

2. Ni chaiff deiliad y drwydded roi twll mewn rhan o'r corff nad yw'n rhan bersonol o gorff cleient o dan 16 oed heb gydsyniad ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, a rhaid i'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol fod yn bresennol drwy gydol y driniaeth arbennig.

3. Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg wrth roi'r driniaeth arbennig. Pan fo modd gwisgo menyg latecs, rhaid iddynt fod yn rhai protein isel heb eu powdro. Os oes gan y cleient alergedd hysbys i latecs, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg eraill addas nad ydynt yn cynnwys latecs.

4. Wrth roi triniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo'r menyg sy'n ffitio orau, sy'n cynnig y deheurwydd gorau, sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus ac sydd hefyd yn cynnig rhwystr amddiffynnol da.

5. Dylid tynnu menyg a'u gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben neu pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.

6. Rhaid i'r holl emwaith, gwrthrychau neu offerynnau a all ddod i gysylltiad â chroen neu bilen fwcaidd wrth dyllu'r corff, neu sy'n dod i gysylltiad agos â chroen wedi ei dyllu neu bilen fwcaidd wedi ei thyllu ar y cleient, gael eu prynu gan gyflenwyr sydd ag enw da a rhaid iddynt fod yn rhai untro ac wedi eu sterileiddio ymlaen llaw.

7. O ran unrhyw nodwydd, canwla, pwnsh biopsi, tapr, pin/rhoden gysylltu, tiwb derbyn nodwydd, blanc nodwydd, neu unrhyw offeryn arall a ddefnyddir at ddiben gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd y cleient gyda golwg ar alluogi i emwaith neu unrhyw wrthrych gael ei atodi i gorff y cleient, ei fewnblannu yng nghorff y

DRAFT

cleient neu ei dynnu o gorff y cleient, rhaid iddynt fod wedi eu prynu gan gyflenwr ag enw da, fod yn rhai untro a bod wedi eu sterileiddio ymlaen llaw.

8. Rhaid i'r holl emwaith neu'r holl wrthrychau a ddefnyddir ar gyfer tyllu'r corff fod o radd addas, gan gynnwys dur gwrthstaen llawfeddygol, aur solet 9, 14 neu 18 carat, niobiwm, titaniwm, platinwm, neu blastig trwchus â mandylledd isel.

9. Os oes angen marcio'r rhan o'r croen sydd i'w thyllu, rhaid defnyddio pin ysgrifennu dyfrsail untro neu farcwyr untro. Dylid wedyn waredu'r teclyn neu'r pin ysgrifennu hwn yn syth ar ôl ei ddefnyddio.

10. Os yw deiliad y drwydded yn defnyddio system cetris ar gyfer tyllu'r corff—

    a) rhaid iddo ddefnyddio cetrisen ddi-haint a gemwaith neu wrthrychau wedi eu sterileiddio ymlaen llaw a gyflenwir mewn pecynwaith wedi ei selio sy'n dangos ar ba ran o'r corff y bwriedir iddynt gael eu defnyddio,
    b) rhaid iddo gynnal cofnodion i gadarnhau bod y getrisen ddi-haint a'r gemwaith neu'r gwrthrych sydd wedi ei sterileiddio ymlaen llaw yn gyflawn,
    c) mewn perthynas â thyllu clustiau a'r trwyn, rhaid iddo ddefnyddio cetris sydd wedi eu selio, cyn y dyddiad dod i ben, a rhaid iddynt fod mewn cyflwr da cyn cael eu defnyddio,
    d) ni chaiff ddefnyddio unrhyw getris o becynnau sydd wedi eu difrodi neu sy'n cynnwys pothelli, a rhaid taflu'r rhain,
    e) ni chaiff byth ail-lwytho cetrisen dafladwy a'i defnyddio ar gyfer gwneud amryw o dyllau, hyd yn oed ar yr un cleient, a
    f) rhaid iddo sicrhau bod offeryn tyllu y gellir ei ailddefnyddio yn cael ei lanhau'n gyntaf ac yna ei ddiheintio a'i sterileiddio cyn ac ar ôl pob defnydd, a rhaid ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr (gan gynnwys llwytho a dadlwytho'r cetris).

DRAFT

## Atodlen 9 Rheoliad 9(7)

## Amodau trwyddedu mandadol cymwys mewn perthynas ag electrolysis

1. Ni chaiff deiliad trwydded roi triniaeth electrolysis ar ran bersonol o gorff cleient o dan 18 oed. Yr unig eithriad fyddai pe bai triniaeth electrolysis yn cael ei rhoi yng nghwrs triniaeth feddygol.

2. Ni chaiff deiliad trwydded roi triniaeth electrolysis ar ran o'r corff nad yw'n rhan bersonol o gorff cleient o dan 16 oed heb gydsyniad ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, a rhaid i'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol fod yn bresennol drwy gydol y driniaeth arbennig.

3. Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg wrth roi'r driniaeth arbennig. Pan fo modd gwisgo menyg latecs, rhaid iddynt fod yn rhai protein isel heb eu powdro. Os oes gan y cleient alergedd hysbys i latecs, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg eraill addas nad ydynt yn cynnwys latecs.

4. Wrth roi triniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo'r menyg sy'n ffitio orau, sy'n cynnig y deheurwydd gorau, sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus ac sydd hefyd yn cynnig rhwystr amddiffynnol da.

5. Dylid tynnu menyg a'u gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben neu pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.

DRAFT

# Atodlen 10 Rheoliad 9(7)

## Amodau trwyddedu mandadol cymwys mewn perthynas â thatŵio

1. Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth tatŵio i unrhyw gleient o dan 18 oed oni bai bod esemptiad yn gymwys o dan Ddeddf Tatŵio Pobl Ifanc o Dan Oed 1969(**1**).

2. Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg wrth roi'r driniaeth arbennig. Pan fo modd gwisgo menyg latecs, rhaid iddynt fod yn rhai protein isel heb eu powdro. Os oes gan y cleient alergedd hysbys i latecs, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg eraill addas nad ydynt yn cynnwys latecs.

3. Wrth roi triniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo'r menyg sy'n ffitio orau, sy'n cynnig y deheurwydd gorau, sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus ac sydd hefyd yn cynnig rhwystr amddiffynnol da.

4. Dylid tynnu menyg a'u gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben neu pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.

5. Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo ffedog untro, dafladwy wrth roi'r driniaeth arbennig. Mae'r ffedog i'w thynnu a'i gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben neu pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.

6. Rhaid i'r holl gynhyrchion megis eli diheintio, jeli petroliwm, jel iro a stensiliau tatŵio fod yn rhai untro neu rhaid eu rhoi mewn cynwysyddion glân, untro gan ddefnyddio offerynnau glân, untro.

7. Rhaid labelu cynhyrchion gyda'r dyddiad y cawsant eu hagor a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

8. Rhaid rhoi inciau/pigmentau mewn cynwysyddion glân, untro neu rhaid iddynt fod wedi eu pacio ymlaen llaw mewn ffiolau untro, a rhaid eu defnyddio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

---

(**1**) 1969 p. 24.

DRAFT

9. Dim ond dŵr di-haint y caniateir ei ddefnyddio i wanhau inciau a phigmentau ac i rinsio offerynnau a chyfarpar wrth roi triniaeth tatŵio.

10. Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod cyfarpar sydd â cheudodau gwag ynddo, cyfarpar sydd wedi ei lapio neu ei amgáu mewn cydau, neu lwythi mân-dyllog, yn cael eu sterileiddio gan ddefnyddio awtoclaf gwactod priodol y bernir ei fod yn briodol at y diben hwnnw gan y gwneuthurwr.

11. Rhaid cofnodi brand, cod lliw a chod swp pob pigment/inc a ddefnyddir ar gleient yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded am y cleient ar yr adeg y rhoddir y driniaeth arbennig.

DRAFFT